**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

# Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Eithrio) (Cymru) 2000

## Y Cefndir

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1999 yn gosod gofynion ar yr awdurdodau lleol ynghylch darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Mae adrannau 2(5) a 29(1) o'r Ddeddf yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i eithrio awdurdodau penodedig rhag rhai o'r gofynion hyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn eithrio'r cynghorau cymuned hynny nad oedd yr incwm yn eu cyllidebau blynyddol am 1998 neu 1999 yn fwy na £1,000,000. Mae'r awdurdodau hyn wedi'u heithrio rhag prif ddarpariaethau'r Ddeddf ynghylch dyletswydd gyffredinol y gwerth gorau a'i fonitro (adrannau 3 i 6).

Mae gorchymyn tebyg yn cael ei wneud ar gyfer Lloegr, i eithrio cynghorau plwyf. Y ffigur ar gyfer cyllidebu incwm er mwyn i gynghorau plwyf gael eu heithrio yw £500,000.

## Rheol Sefydlog 11.5

Mae'r per galluogi yn adran 2(5) o Ddeddf 1999 yn lleddfu'r per i ddarparu ar gyfer eithrio cyrff o ofynion y gwerth gorau gyda'r geiriau –

> "in relation to such functions as may be specified"

Mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer eithrio rhai cynghorau cymuned -

> "mewn perthynas ag unrhyw un o'u swyddogaethau".

Ar yr olwg gyntaf, mae cynnwys yn y per galluogi "such functions as may be specified" yn awgrymu bod y per yn golygu dynodi awdurdodau sydd i'w heithrio drwy gyfeirio at rai o swyddogaethau penodol yr awdurdodau hynny. Gan hynny, y casgliad cychwynnol a fynegwyd i'r rhai a oedd yn gyfrifol am ddrafftio'r Gorchymyn oedd y gallai fod angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar y sail ei fod, drwy geisio pennu holl swyddogaethau'r awdurdodau a gâi eu heithrio, fel pe bai yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y per yn adran 2(5) o Ddeddf 1999.

Bu'r pwynt hwn yn destun trafod rhwng Cynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor hwn a Chwnsler yr Arglwydd Gadeirydd yn Nh'r Arglwyddi, sy'n gyfrifol am gynghori'r Cyd-bwyllgor Offerynnau Statudol

mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft ar gyfer Lloegr. Yr oedd yr un pwynt wedi'i godi gan y Cyd-bwyllgor Offerynnau Statudol, ond yn ei hymateb hwy yr oedd yr adran berthnasol o'r llywodraeth wedi llwyddo i nodi darnau o'r adroddiadau yn Hansard ar y dadleuon ar y ddeddfwriaeth alluogi, a'r rheiny yn dangos bod yna fwriad i ddefnyddio adran 2(5) yn y modd sydd wedi'i gynnig ar hyn o bryd.

Yn yr amgylchiadau hyn, cesglir bellach nad yw'r gorchymyn presennol yn ddefnydd anarferol neu annisgwyl ar y per galluogi.

**<u>Sylwadau Cyffredinol</u>**

Yn ychwanegol at yr uchod, mae yna sylwadau mwy cyffredinol y gallai fod yn fuddiol eu cyflwyno, er nad ydynt yn codi unrhyw gwestiwn o gyflwyno adroddiad o dan RhS 11.5.

**Y Nodyn Esboniadol**

Byddai'r Nodyn yn fwy o gymorth i'r rhai sy'n ceisio deall effaith y Gorchymyn pe bai'n nodi natur y dyletswyddau yn y Ddeddf y mae'r cynghorau cymuned o dan sylw yn cael eu heithrio rhagddynt.

Hefyd, efallai y byddai'n gliriach mai at gynghorau cymuned adnabyddadwy yn unig y mae'r eithriad yn cyfeirio pe bai'r paragraff terfynol yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn –

> "Mae'r Gorchymyn hwn yn eithrio cynghorau cymuned sydd wedi cyllidebu ar gyfer incwm nad yw'n fwy na £1,000,000".

**Erthygl 2**

Rhagdybir bod disgrifiad o ddosbarth drwy gyfeirio at incwm yn y gyllideb am naill ai blwyddyn ariannol 1998 neu flwyddyn ariannol 1999 wedi'i ddefnyddio yn hytrach na rhestru'r cynghorau cymwys eu hunain ar y sail y byddai'r rhestr yn un faith iawn. Awgrymir er hynny y gallai'r ffaith nad yw'r esemptiad yn gymwys ond i restr benodedig o gynghorau adnabyddadwy penodol gael ei mynegi'n gliriach drwy osod "nad oedd yn fwy" yn lle "nad yw'n fwy".

Rhagdybir bod y rhai a ddrafftiodd y Gorchymyn yn fodlon bod yr ymadrodd term "cyllidebau ar gyfer incwm" wedi ennill ei blwyf ac yn caniatáu i'r cynghorau yr effeithir arnynt gael eu hadnabod heb ansicrwydd. Nodir bod y term "budgeted income" yn cael ei ddiffinio yn y Gorchymyn ar gyfer Lloegr.

Mewn perthynas â'r cyfeiriad at "adrannau 3 i 6" o'r Ddeddf, awgrymir y buasai'n briodol cyfeirio at yr isadrannau perthnasol sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau'r gwerth gorau yn achos yr adrannau hynny sydd hefyd yn cynnwys nifer o swyddogaethau'r Cynulliad.

**JOHN H TURNBULL**

Cynghorydd Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-044

25 Ionawr 2000

| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | | National Assembly for Wales |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S** |
| **2000 Rhif (Cy. )** | | **2000 No. (W. )** |
| **LLYWODRAETH LEOL, CYMRU** | | **LOCAL GOVERNMENT, WALES** |
| **Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Eithrio) (Cymru) 2000** | | **The Local Government (Best Value) (Exemption) (Wales) Order 2000** |
| | | |
| **NODYN ESBONIADOL**<br><br>*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)* | | **EXPLANATORY NOTE**<br><br>*(This note does not form part of the Order)* |
| | | |
| Mae Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaol yn y ffordd y mae eu swyddogaethau yn cael eu harfer (gwerth gorau), i gynnal adolygiadau gwerth gorau o'u swyddogaethau ac i baratoi cynllun perfformiad gwerth gorau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. | | Part I of the Local Government Act 1999 imposes duties on local and other authorities to make arrangements to secure continuous improvements in the way in which their functions are exercised (best value), to conduct best value reviews of their functions and to prepare a best value performance plan for each financial year. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Mae adrannau 2(5) a 29(1) o'r Ddeddf yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn perthynas â Chymru, i eithrio awdurdodau penodedig, neu ddisgrifiadau penodedig o awdurdod, rhag y dyletswyddau hynny yngln â swyddogaethau penodedig. | | Sections 2(5) and 29(1) of the Act enable the National Assembly for Wales, in relation to Wales, to exempt specified authorities, or specified descriptions of authority, from those duties in relation to specified functions. |
| | | |
| Mae'r Gorchymyn hwn yn eithrio cynghorau cymuned sydd wedi cyllidebu ar gyfer gwariant refeniw gros nad yw'n fwy na £1,000,000 ar gyfer y naill neu'r llall o'r blynyddoedd ariannol a ddechreuodd ar 1 Ebrill 1998 neu 1 Ebrill 1999. | | This Order exempts community councils whose budgeted gross revenue expenditure for either of the financial years commencing on 1$^{st}$ April 1998 or 1$^{st}$ April 1999 does not exceed £1,000,000. |

| | | |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S** |
| **2000 Rhif (Cy. )** | | **2000 No. (W. )** |
| **LLYWODRAETH LEOL, CYMRU** | | **LOCAL GOVERNMENT, WALES** |

| | | |
|---|---|---|
| Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Eithrio) (Cymru) 2000<br><br>Wedi'i wneud 2000<br><br>Yn dod i rym 1 Ebrill 2000 | | **The Local Government (Best Value) (Exemption) (Wales) Order 2000**<br><br>Made 2000<br><br>Coming into force 1st April 2000 |
| | | |
| Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 2(5) a 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999*(a)*: | | The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers given to it by sections 2(5) and 29(1) of the Local Government Act 1999(a): |
| | | |
| **Enwi, cychwyn a chymhwyso**<br><br>1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Eithrio) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000. | | **Citation, commencement and application**<br><br>1.-(1) This Order may be cited as the Local Government (Best Value) (Exemption) (Wales) Order 2000 and shall come into force on 1st April 2000. |
| (2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig. | | (2) This Order applies to Wales only. |
| | | |
| **Eithrio rhag y dyletswyddau yn Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999** | | **Exemption from the duties in Part I of the Local Government Act 1999** |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 2. Ni fydd cynghorau cymuned sydd wedi cyllidebu ar gyfer gwariant refeniw gros nad yw'n fwy na £1,000,000 ar gyfer y naill neu'r llall o'r blynyddoedd ariannol a ddechreuodd ar 1 Ebrill 1998 neu 1 Ebrill 1999 yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a osodir gan adrannau 3 i 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 mewn perthynas ag unrhyw un o'u swyddogaethau. | | 2. Community councils whose budgeted gross revenue expenditure for either of the financial years commencing on 1st April 1998 or 1st April 1999 did not exceed £1,000,000 shall not be subject, in relation to any of their functions, to the duties imposed by sections 3 to 6 of the Local Government Act 1999. |
| | | |
| Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66 (1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 *(a)*. | | Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a). |
| | | |
| [ ] 2000<br><br>Llywydd Y Cynulliad<br><br>Cenedlaethol | | [ ] 2000<br><br>The Presiding Officer<br><br>of the National Assembly |
| | | |